Gweinyddiaeth CYFIAWNDER

Ministry of JUSTICE

Cyhoeddi cyfeiriadau ymgeiswyr mewn etholiadau Seneddol yn y DU

Papur Ymgynghori **CP(L) 30/08**

Cyhoeddwyd ar 26 Tachwedd 2008

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 28 Ionawr 2009

Gweinyddiaeth CYFIAWNDER
Ministry of JUSTICE

Cyhoeddi cyfeiriadau ymgeiswyr mewn etholiadau Seneddol yn y DU

Ymgynghoriad a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae'r ymgynghoriad hwn ar gael ar wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder hefyd: www.justice.gov.uk

Cynnwys

Rhagair	2
Crynodeb gweithredol	3
Rhagarweiniad	4
Pryderon ynglŷn â chyhoeddi cyfeiriadau cartref ASau	6
Y sefyllfa gyfreithiol ar hyn o bryd	8
Cefndir y gyfraith bresennol	9
Eich Manylion Chi	25
Manylion cysylltu/Sut i ymateb	26
Asesu Effaith	28
Meini prawf ar gyfer ymgynghori	29

Rhagair

Pwrpas y papur ymgynghori hwn yw ceisio'ch barn ynglŷn ag a ddylid parhau i gynnwys cyfeiriadau ymgeiswyr mewn etholiadau Seneddol yn y DU ar bapurau pleidleisio ac ar ddogfennau etholiadol eraill sy'n agored i'r cyhoedd. Mae hyn yn codi yn sgil pryder y gallai'r gofynion presennol, sef, bod cyfeiriadau ymgeiswyr yn ymddangos ar bapurau enwebu a phapurau pleidleisio mewn etholiadau, beryglu diogelwch a gwarchodaeth ASau, ymgeiswyr a'u teuluoedd. Adlewyrchwyd y pryderon hyn mewn gwelliannau a gyflwynwyd ynglŷn â'r mater hwn yn ystod cam Pwyllgor y Mesur Pleidiau Gwleidyddol ac Etholiadau yn ystod mis Tachwedd 2008.

Mae gan y Llywodraeth feddwl agored ynglŷn â hyn a byddai'n falch o gael eich barn ynglŷn ag a ddylid diwygio'r Mesur, ac, os felly, ynglŷn â pha newidiadau y dylid eu gwneud. Mae nifer o ddewisiadau sy'n amrywio o lynu wrth y gofynion presennol i beidio â datgelu'r cyfeiriad o gwbl. Rhwng y ddau eithaf hynny, mae dewisiadau eraill, er enghraifft, cynnwys cod post llawn ymgeisydd neu ran gyntaf y cod ar y papurau enwebu a phleidleisio.

Mae'r papur ymgynghori hwn yn ystyried yr effaith a gâi newid y ddeddfwriaeth mewn unrhyw fodd ar gynnal etholiadau, ar natur dryloyw ac agored y broses ac ar ystyriaethau ynglŷn â diogelwch a gwarchodaeth ASau, ymgeiswyr a'u teuluoedd, ac mae'r rhain i gyd wrth wraidd ein proses ddemocrataidd.

Edrychwn ymlaen at glywed eich barn.

Michael Wills

Michael Wills

Y Gweinidog Gwladol dros Gyfiawnder

Crynodeb gweithredol

Pwrpas y papur ymgynghori hwn yw ceisio'ch barn ynglŷn ag a ddylid parhau i gynnwys cyfeiriadau cartref llawn ymgeiswyr mewn etholiadau Seneddol yn y DU ar bapurau pleidleisio ac ar ddogfennau etholiadol eraill sy'n agored i'r cyhoedd.

Mae'r mater wedi codi yn sgil eithrio ASau ac arglwyddi o rai o ddarpariaethau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Dadleuwyd bod pobl gyhoeddus o'r fath a'u teuluoedd yn wynebu risg benodol i'w diogelwch, i'w gwarchodaeth ac i'w tawelwch meddwl ac felly bod ystyriaethau arbennig yn berthnasol iddynt. Mae pobl eraill yn dadlau y dylai'r broses etholiadol fod yn agored ac yn dryloyw ac y dylai'r rhai sy'n eu cynnig eu hunain ar gyfer swydd gyhoeddus fel hyn fod yn barod i wynebu'r risgiau hynny, er budd atebolrwydd a rhyddid democratiaeth.

Felly, mae'r papur hwn yn ystyried y dadleuon yn fwy manwl; yn cynnig rhywfaint o gefndir i'r darpariaethau presennol a'r rhesymau pam eu bod yn dal yn berthnasol; ac mae'n esbonio beth y mae'r gyfraith yn ei ddweud ar hyn o bryd. Mae'n rhoi sylw hefyd yr ystyriaethau ymarferol a allai godi yn sgil unrhyw newid a gynigir a'r goblygiadau ar gyfer yr etholwyr, ar gyfer y broses etholiadau, ar gyfer ymgeiswyr, ac ar gyfer gweinyddwyr.

Mae a wnelo'r papur hwn yn bennaf â'r sefyllfa yn etholiadau Seneddol y DU. Fodd bynnag, os newidir rhywbeth yn sgil yr ymgynghori, ystyrir ymestyn y newidiadau hynny i gynnwys etholiadau eraill yn y DU.

Rhagarweiniad

Mae'r papur hwn yn ceisio'ch barn ynglŷn ag a ddylid parhau i gynnwys cyfeiriadau cartref llawn ymgeiswyr mewn etholiadau Seneddol yn y DU ar bapurau pleidleisio ac ar ddogfennau etholiadol eraill sy'n agored i'r cyhoedd.

Mae'r ymgynghoriad yn agored i bawb. Gobeithiwn yn benodol y bydd Aelodau Seneddol, pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr, etholwyr a gweinyddwyr etholiadau yn y DU yn ystyried y materion a godir ac yn ymateb iddynt.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dilyn y Cod Ymarfer ar gyfer Ymgynghori a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet, gyda'r amrywiad a ganlyn. Mae Michael Wills AS, y Gweinidog Gwladol dros Gyfiawnder, wedi penderfynu bod cwtogi'r cyfnod deuddeg wythnos a argymhellir yn y Cod Ymarfer ar gyfer ymgynghori i naw wythnos yn briodol yn y cyswllt hwn. Bydd y cyfnod naw wythnos hwnnw'n sicrhau'r cydbwysedd iawn o ran ei fod yn cynnig digon o amser i bobl fynegi barn am y pwnc hwn ac i'r farn honno gael ei hystyried a bod modd sicrhau hefyd y gellir cynnwys unrhyw newidiadau angenrheidiol yn y Mesur Pleidiau Gwleidyddol ac Etholiadau sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd, os mai dyna'r farn glir sy'n codi o'r ymgynghori hwn.

Cwblhawyd Asesiad Effaith cychwynnol ac mae hwnnw'n dangos y gallai gweithredu ambell newid i'r gyfraith sydd dan ystyriaeth yn y papur hwn effeithio'n benodol ar weinyddwyr etholiadau. A dibynnu ar yr ymateb i'r ymgynghori hwn, efallai y bydd cynigion ar gyfer newid felly'n arwain at rai costau ychwanegol i'r sector cyhoeddus. Croesewir yn arbennig sylwadau ynglŷn â'r Asesiad Effaith a'r cwestiynau penodol a gynhwysir ynddo: mae'r Asesiad Effaith i'w weld yn **Atodiad A.**

Anfonir copïau o'r papur ymgynghori at y canlynol:

Aelodau Seneddol

Pleidiau Gwleidyddol

Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadau

Y Comisiwn Etholiadol

Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch Reolwyr Awdurdodau Lleol

SOLACE – yr Alban

Swyddogion Cofrestru Etholiadau Cymru, Lloegr a'r Alban

Prif Swyddog Etholiadau Gogledd Iwerddon

Awdurdodau Lleol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon

Cymdeithas HS Chapman

Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu

Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yn yr Alban

Fodd bynnag, ni fwriedir i'r rhestr hon fod yn hollgynhwysfawr nac yn gyflawn a chroesewir atebion gan unrhyw un y mae ganddo ddiddordeb ym maes y papur hwn neu y mae ganddo farn yn ei gylch.

Pryderon ynglŷn â chyhoeddi cyfeiriadau cartref ASau

Ar 16 Mai 2008 cadarnhaodd yr Uchel Lys benderfyniad gan y Tribiwnlys Gwybodaeth yn gorchymyn, ymhlith pethau eraill, y dylid rhyddhau cyfeiriadau cartref rhai ASau, mewn ymateb i gais dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 am fanylion hawliadau'r ASau hynny dan y Lwfans Costau Ychwanegol. Penderfynodd Awdurdodau'r Tŷ beidio ag apelio i'r Llys Apêl, gan ryddhau'r wybodaeth a geisiwyd.

Wedi hynny, codwyd pryderon yn Nhŷ'r Cyffredin ym mis Gorffennaf 2008, y gallai rhyddhau gwybodaeth sy'n ymwneud â chyfeiriadau Aelodau'r naill Dŷ neu'r llall beryglu diogelwch yr Aelodau dan sylw, ac y gallai hynny effeithio er gwaeth ar eu gallu i leisio barn am unrhyw fater heb ofni bygythiad o ymyrryd neu folestu.

Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn, gwnaethpwyd Gorchymyn Rhyddid Gwybodaeth (Senedd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru) 2008 (SA 2008 Rhif 1967) dan adran 7(3)(a) y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Effaith hyn oedd diwygio'r ddeddf fel bod cyfeiriadau ASau ac arglwyddi a mathau penodol eraill o wybodaeth a gedwir gan Dŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi'n cael eu heithrio o'r Ddeddf. Golyga hyn fod unrhyw gais a wneir i Dŷ'r Cyffredin neu i Dŷ'r Arglwyddi am wybodaeth o'r fath bellach yn dod y tu allan i gwmpas y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Wrth ddadlau ynglŷn â'r Gorchymyn ym mis Gorffennaf eleni[1], canolbwyntiodd ASau ac arglwyddi ar y risgiau i'w gwarchodaeth a'u diogelwch yn sgil bod eu cyfeiriadau preifat ar gael drwy'r amser a bod hynny'n orfodol. Dyma rai o'r pwyntiau a godwyd yn ystod y dadleuon:

- Y risg bod pwysau ychwanegol ar deulu AS drwy fod eu cyfeiriad preifat yn y cylch cyhoeddus, yn enwedig yn ystod yr oriau hynny pan fydd gofyn i'r AS fod oddi cartref;

- Yr hawl i deuluoedd, fel dinasyddion preifat, gadw manylion eu cyfeiriad y tu allan i'r cylch cyhoeddus;

[1] Gellir gweld y ddadl yn Nhŷ'r Cyffredin ar 17 Gorffennaf drwy ddilyn y ddolen hon:- http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200708/cmhansrd/cm080717/debtext/80717-0010.htm#08071780000001 . Gellir gweld y ddadl lawn yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 22 Gorffennaf drwy ddilyn y ddolen hon:- http://www.publications.parliament.uk/pa/ld200708/ldhansrd/text/80722-0003.htm#08072254000015

- Bod angen i ASau siarad yn rhydd yn Nhŷ'r Cyffredin ynglŷn â materion (a nifer ohonynt efallai'n bynciau llosg) heb ofni eu bod yn eu rhoi hwy eu hunain neu eu teuluoedd mewn perygl;

- Bod angen ystyried anghenion diogelwch ehangach y cyhoedd – yn enwedig y rheini sy'n byw yng nghyffiniau ASau;

- Y risg bod cartrefi ASau yn cael eu targedu gan unigolion neu gan grwpiau sy'n ymgyrchu ynglŷn â materion penodol. Gwelwyd enghraifft ddiweddar o'r risg honno yn gynharach eleni pan gynhaliodd ymgyrchwyr Fathers 4 Justice brotest wrth gartref dirprwy arweinydd y Blaid Lafur;

- Y risg i ladron ddwyn o gartrefi ASau pan fyddant oddi cartref;

- Peryglon yn y dyfodol nad oes modd eu rhagweld sy'n gysylltiedig â chyhoeddi cyfeiriadau ASau, megis bygythiadau i'w lladd, a therfysgaeth;

- Oni fydd AS yn symud tŷ, bydd ei g/chyfeiriad yn dal yn y cylch cyhoeddus, hyd yn oed ar ôl iddo/iddi roi'r gorau i fod yn AS.

Daeth y dadleuon yn sgil y Cynnig Cynnar-yn-y-Dydd (rhif 1620) a gyflwynwyd ar 20 Mai 2008 gan y Dr Julian Lewis AS ynglŷn â chyhoeddi cyfeiriadau cartref AS a ddywedai:

> Mae'r Tŷ hwn yn credu na ddylid cyhoeddi cyfeiriad cartref unrhyw Aelod Anrh. neu Wir Aelod Anrh. os bydd ef neu hi'n gwrthwynebu ei gyhoeddi ar sail preifatrwydd neu warchodaeth bersonol.

Hyd yn hyn, mae 249 AS o bob ochr o'r Tŷ wedi cefnogi'r Cynnig Cynnar-yn-y-Dydd hwn.

Hefyd, mae'r Dr Julian Lewis AS wedi bod yn gohebu â'r Llywodraeth ac â'r Comisiwn Etholiadol ynglŷn â gofyniad cyfraith etholiadau ar hyn o bryd bod cyfeiriadau cartref ymgeiswyr mewn etholiadau Seneddol yn y DU yn cael eu cyhoeddi ar bapurau enwebu a phleidleisio. Mae'r Dr Lewis yn poeni bod y gofyniad hwn yn groes i'r Gorchymyn a gymeradwywyd gan y Senedd ym mis Gorffennaf ac y gellid ei ddefnyddio i dargedu ASau sydd, oherwydd natur eu gwaith, yn destun beirniadaeth gyhoeddus gan rai.

Cododd y Dr Lewis y mater hwn yn Ail Ddarlleniad y Mesur Pleidiau Gwleidyddol ac Etholiadau ar 20 Hydref, gan esbonio iddo gynnig nifer o ddewisiadau i'r Comisiwn Etholiadol er mwyn mynd i'r afael â'r mater. Roedd hyn yn cynnwys y cynnig na ddylai ymgeiswyr ond gorfod datgelu rhan gyntaf cod post eu cyfeiriad mewn etholiad Seneddol. Cyfeiriodd y Dr Lewis at ymateb a gawsai gan Peter Wardle, Prif Weithredwr y Comisiwn Etholiadol, lle'r oedd yn esbonio y byddai'r Comisiwn Etholiadol mae'n debyg yn ffafrio'r dewis hwn petai newid. Nododd y Dr Lewis i Mr Wardle ddweud bod *"y Comisiwn yn debygol o arddel y farn y dylai etholwyr ac ymgeiswyr gael y*

cyfle i benderfynu drostynt eu hunain pa gysylltiad sydd gan ymgeisydd â'r ardal y maent yn ceisio'i chynrychioli."

Wrth basio Gorchymyn Rhyddid Gwybodaeth (Senedd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru) 2008, mae'r Senedd wedi cydnabod bod angen gwarchod manylion personol penodol ar gyfer ASau ac arglwyddi. Felly, mae'n rhesymol ystyried a yw'n dal yn briodol cyhoeddi manylion personol tebyg dan amgylchiadau eraill ai peidio. Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth fel y'i diwygiwyd gan y Gorchymyn hwnnw, yn eithrio cyfeiriadau ASau ac Arglwyddi a mathau penodol eraill o wybodaeth o'r trefniadau Rhyddid Gwybodaeth i'r graddau bod y wybodaeth honno'n cael ei chadw gan Dŷ'r Cyffredin a chan Dŷ'r Arglwyddi. Mae'r ymgynghori hwn yn canolbwyntio ar gyhoeddi manylion o'r fath mewn maes culach, sef yng nghyd-destun etholiadau, ac yn benodol, etholiadau Seneddol y DU.

Y sefyllfa gyfreithiol ar hyn o bryd

Y prif ddarn o ddeddfwriaeth etholiadol yn y maes hwn yw Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, sy'n atgyfnerthu'r rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth etholiadol a gafwyd cyn hynny. Mae Atodlen 1 y Ddeddf honno'n pennu'r rheolau ar gyfer cynnal etholiadau Seneddol y DU. Mae'r egwyddorion a adlewyrchir yn rheolau'r Atodlen honno'n cael eu hailadrodd yn y rheolau ar gyfer etholiadau i gyrff eraill megis Senedd Ewrop, Senedd yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cynulliad Gogledd Iwerddon, Awdurdod Llundain Fwyaf, etholiadau awdurdodau lleol, etholiadau cynghorau plwyf ac ar gyfer ethol meiri awdurdodau lleol. Mae gan bob un o'r mathau hyn o etholiadau ei set ei hun o reolau sy'n ymwneud â chynnal yr etholiad, a'r rheini wedi'u pennu naill ai mewn deddfwriaeth sylfaenol neu mewn is-ddeddfwriaeth neu yn y ddwy, gan addasu telerau Atodlen 1 Deddf 1983 at ddibenion yr etholiad dan sylw.

Er bod Deddf 1983 wedi'i diwygio sawl gwaith ers ei phasio, nid yw darpariaethau Atodlen 1 sy'n ymwneud â chyfeiriadau ymgeiswyr wedi'u newid yn y cyfnod diweddar. Yn etholiadau Seneddol y DU, rhaid i gyfeiriadau cartref llawn ymgeiswyr ymddangos ar y dogfennau a ganlyn:

- y papur enwebu;
- y datganiad enwebeion:
- y papur pleidleisio;
- y fersiwn fwy o'r papur pleidleisio a ddangosir mewn gorsafoedd pleidleisio.

Ar hyn o bryd, yn ôl statud, nid oes yn rhaid i gyfeiriadau cartref ymgeiswyr ymddangos ar eu papur cydsynio ysgrifenedig i'r enwebiad. Ceir archwilio

papurau enwebu'r ymgeiswyr yn swyddfa'r Swyddog Canlyniadau ar ôl eu cyflwyno. Bydd y Swyddog Canlyniadau'n cyhoeddi'r datganiad ynglŷn â'r rheini a enwebir ar ôl i'r enwebiadau gau. Yn ôl eu diffiniad, mae'r papurau pleidleisio a'r papurau pleidleisio mawr ar gael i'r cyhoedd yn yr orsaf bleidleisio. Felly, mae'r holl ddogfennau y cyfeirir atynt uchod yn agored i'r cyhoedd ac ar gael iddynt eu harchwilio.

Mae'r arferion yn amrywio mewn etholiadau eraill. Mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru a Lloegr, yn ogystal ag ymddangos ar bapurau enwebu a phleidleisio ac ar y datganiad enwebeion, rhaid i gyfeiriad pob ymgeisydd ymddangos hefyd ar bapur cydsynio'r ymgeisydd i'r enwebiad. Un ystyriaeth bwysig mewn etholiadau lleol yw ei bod yn rhaid i'r ymgeiswyr naill ai fyw neu weithio yn yr awdurdod lleol lle maent yn sefyll. Pwrpas hyn yw sicrhau bod gan gynghorwyr lleol ddiddordeb yn eu cymuned leol a chysylltiad â hi[2]. Nid oes gofyniad cyfatebol mewn etholiadau Seneddol.

Mewn etholiadau ar gyfer Senedd Ewrop, a gynhelir drwy ddefnyddio system "rhestr plaid', ni fydd cyfeiriadau ymgeiswyr yn ymddangos ar y papur pleidleisio ar gyfer yr etholiad, ond rhaid iddynt ymddangos yn y papurau enwebu a gyflwynir gan ymgeisydd neu gan blaid, ar y datganiad enwebeion, ac ar y datganiad a wneir gan ddinesydd perthnasol yr Undeb Ewropeaidd sy'n sefyll yr etholiad.

Bydd etholiadau ar gyfer Senedd yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cynulliad Gogledd Iwerddon a Chynulliad Llundain yn defnyddio cyfuniad o system rhestr plaid a system aelod etholaeth. Ym mhob achos, rhaid rhoi cyfeiriad yr ymgeiswyr ar gyfer rhestr y pleidiau ar seddi etholaethol yn y papurau enwebu ac ar y datganiad enwebeion. Fodd bynnag, dim ond yn etholiadau aelodau'r etholaethau y cynhwysir cyfeiriadau'r ymgeiswyr ar y papur pleidleisio.

Cefndir y gyfraith bresennol

Un o nodweddion etholiadau Seneddol ers tro yw bod enwau a chyfeiriadau cartref ymgeiswyr yn ymddangos ar bapurau enwebu a phapurau pleidleisio, sy'n agored i'w harchwilio gan y cyhoedd, er nad oes gofyniad mewn etholiadau Seneddol bod ymgeiswyr yn byw yn yr etholaeth lle maent yn sefyll. Gwneir hyn er mwyn bod yn agored ac yn dryloyw. Mae hefyd yn gymorth i ddatgelu camarfer etholiadol, mae'n golygu bod modd herio

[2] Dan adran 79 (1) Deddf Llywodraeth Leol 1972 (LGA 1972), er mwyn bod yn gymwys fel ymgeisydd (a) maent wedi'u cofrestru'n etholwr llywodraeth leol ar gyfer ardal yr awdurdod lleol lle maent yn dymuno sefyll **neu** (b) maent wedi bod yn berchennog neu'n denant ar unrhyw dir neu eiddo yn ardal yr awdurdod lleol am y deuddeng mis cyfan cyn diwrnod eu henwebu **neu** (c) roedd eu prif le gwaith neu eu hunig le gwaith yn y deuddeng mis blaenorol yn ardal yr awdurdod lleol **neu** (d) maent wedi bod yn ardal yr awdurdod lleol drwy gydol y deuddeng mis diwethaf.

honiadau a wneir gan bobl sy'n sefyll ynglŷn â phwy ydynt. Felly, gellid dadlau ei fod yn sicrhau bod etholiadau'n cael eu cynnal yn agored ac yn deg, heb ddal gwybodaeth yn ôl rhag y rhai y gall fod angen y wybodaeth honno arnynt er mwyn penderfynu dros bwy i bleidleisio.

Dadleuir bod y ffaith bod cyfeiriad ymgeisydd ar gael yn gyhoeddus yn golygu y gall etholwyr nad ydynt o bosibl yn gyfarwydd â'r ymgeiswyr yn ôl eu henwau, benderfynu pa mor gymwys ydynt i gynrychioli eu buddiannau lleol. Fan leiaf, mae'n sicrhau bod yr etholwyr o leiaf yn gwybod a oes gan ymgeisydd gysylltiad o gwbl â'r etholaeth y mae ef neu hi'n sefyll ynddi. Gall etholwyr lunio'u barn eu hunain ynglŷn â gallu ymgeisydd y mae ei gyfeiriad cartref mewn rhan arall o'r wlad i fod yn ymwybodol o bryderon a phroblemau lleol.

Nid oes gofyniad cyfreithiol i ymgeiswyr mewn etholiad Seneddol yn DU fyw yn yr etholaeth y maent yn sefyll ynddi. Ar hyn o bryd, er bod gofyn i ymgeiswyr roi eu henw a'u cyfeiriad ar eu papur enwebu ar gyfer yr etholiad, nid yw'r Swyddog Canlyniadau'n "cadarnhau" bod yr ymgeisydd yn byw yn y cyfeiriad hwnnw. Yn hytrach, derbynnir eu bod yn dweud y gwir. Os oes gwall yn y cyfeiriad a roddir gan ymgeisydd, gellir codi hynny mewn deiseb etholiadol yn erbyn ymgeisydd llwyddiannus, a gellir deisebu yn erbyn etholiad os yw'r enwebiad yn ddiffygiol.

Mae diben ymarferol i'r darpariaethau hefyd, sef eu bod yn caniatáu i'r Swyddog Canlyniadau hysbysu'r awdurdodau cywir ynglŷn â manylion personol yr ymgeisydd llwyddiannus er mwyn iddynt gysylltu ag ef neu hi a gwneud trefniadau i'w talu a threfniadau eraill. Mae'r gwrit i Glerc y Goron, a ddychwelir gan y Swyddog Canlyniadau ar ôl etholiad Seneddol, yn cynnwys cyfeiriad yr ymgeisydd llwyddiannus a gofnodir ar y gofrestr Seneddol ac y gellir ei ddefnyddio i gynorthwyo wrth gysylltu ag ef/hi yn y dyfodol.

Trafodaethau blaenorol ynglŷn â'r mater hwn

Yn 1999, cododd y Gwir Anrh. Harriet Harman AS y mater hwn gyda Gweinidogion y Swyddfa Gartref, a oedd ar y pryd yn gyfrifol am bolisi a chyfraith etholiadol. Yna, ymgymerwyd ag ymarfer ymgynghori byr ac anffurfiol a oedd yn cynnwys y prif bleidiau gwleidyddol (sef, pob un sydd â chynrychiolwyr yn Nhŷ'r Cyffredin) er mwyn mesur maint y gefnogaeth o blaid peidio â chyhoeddi cyfeiriadau ymgeiswyr mewn etholiadau, ac yn benodol, peidio â'u rhoi ar bapurau pleidleisio.

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghori hwn yn cefnogi'r sefyllfa bresennol. Ar y cyfan, roedd y pleidiau'n tueddu i ffafrio peidio â newid y trefniadau, neu roeddent yn gryf yn erbyn gwneud hynny. Pleidiau gwleidyddol Gogledd Iwerddon oedd yn gwrthwynebu gryfaf. Roedd y rheini fwy neu lai'n unfryd yn gwrthwynebu newid, er bod nifer o'u Haelodau Seneddol a'u cynghorwyr wedi dioddef ymosodiadau ar eu cartrefi yn y gorffennol. Eu dadl hwn oedd bod eu presenoldeb cyhoeddus parhaus, a'r ffaith eu bod ar gael ac yn agored yn

golygu eu bod yn gwasanaethu eu cymunedau'n well ac yn well er budd democratiaeth nag y byddai ceisio ymneilltuo o fywyd cyhoeddus. Felly, penderfynodd Gweinidogion y Swyddfa Gartref ar y pryd na ddylid newid y gyfraith yn y mater hwn.

Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi ystyried y mater o'r blaen wrth iddo ddylunio papurau pleidleisio. Yn ei adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2003, *Dylunio Papurau Pleidleisio, Adroddiad ac argymhellion*, cydnabu'r Comisiwn ei bod yn bwysig gan rai etholwyr gael cyfeiriadau'r ymgeiswyr ar y papur pleidleisio ac nid argymhellodd y dylid eu heithrio.

Fodd bynnag, yn fwy diweddar (mewn gohebiaeth â'r Dr Julian Lewis AS ac wrth roi sylwadau ar welliannau a gyflwynwyd i Fesur y PPE) mae'r Comisiwn wedi cydnabod bod pryderon wedi'u mynegi ynglŷn â chyfrinachedd cyfeiriadau cartref ymgeiswyr. Yn sgil hynny, mae'r Comisiwn wedi awgrymu bod lle i ystyried eto a ddylai cyfeiriadau cartref ymgeiswyr ddal i ymddangos yn llawn ar y papurau enwebu, ar y datganiad enwebeion ac ar y papurau pleidleisio.

Awgrymwyd gan y Dr Julian Lewis AS, yng nghyd-destun etholiadau cyffredinol ar gyfer Senedd y DU, y gellid tocio manylion cyfeiriadau ar y dogfennau hyn drwy gyhoeddi tri (neu bedwar) digid cyntaf cod post ymgeisydd yn unig. Mae'r Dr Lewis wedi codi'r awgrym hwn gyda'r Comisiwn Etholiadol. Mae'r Comisiwn wedi ymateb drwy awgrymu y gallai hyn gynnig digon o wybodaeth am gysylltiad neu ddiffyg cysylltiad ymgeisydd ag etholaeth benodol ar gyfer rhai etholwyr, er ei fod yn credu y byddai angen meddwl rhagor am effaith bosibl unrhyw ofyniad newydd ynglŷn â gwirio cyfeiriadau cartref ar Swyddogion Canlyniadau.

Mae'r pryderon sydd wedi'u codi'n ymwneud â chyhoeddi cyfeiriadau ymgeiswyr mewn etholiadau Seneddol yn y DU ac mae'r ymgynghori'n ymwneud yn bennaf â'r gofynion presennol yn yr etholiadau hyn. Fodd bynnag, sylweddolir y gall ystyriaethau tebyg fod yn berthnasol mewn etholiadau eraill yn y DU. Hefyd, fel y pwysleisir uchod, cydnabyddir bod rhywfaint o amrywiadau yn y gofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â chyhoeddi cyfeiriadau ymgeiswyr mewn etholiadau eraill yn y DU. Felly, os newidir y gofynion ar gyfer cyhoeddi cyfeiriadau ymgeiswyr mewn etholiadau Seneddol yn y DU yn sgil yr ymgynghori hwn, ystyrir ymestyn y newid hwnnw i etholiadau eraill yn y DU, gan sicrhau, lle bo hynny'n briodol, ymagwedd gyson at y mater hwn.

Cynigion ar gyfer newid

Yng ngoleuni penderfyniad y Senedd y dylid eithrio gwybodaeth sy'n ymwneud ag ASau ac arglwyddi o ddarpariaethau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth dan amgylchiadau penodol, dadleuwyd mai anacronistiaeth yw parhau i ganiatáu i gyfeiriadau cartref fod ar gael i'r cyhoedd adeg etholiad. Wrth gwrs, pan ddiddymir y Senedd, nid oes ASau, dim ond ymgeiswyr sy'n sefyll yn yr etholiad cyffredinol a'r rheini i gyd yn gydradd o ran yr etholiad. Byddai unrhyw newidiadau'n gorfod bod yn berthnasol i bob ymgeisydd sy'n sefyll yn yr etholiad, nid dim ond i ASau sydd wedi bod yn y sedd.

Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon ynglŷn â chyhoeddi cyfeiriadau llawn ymgeiswyr, awgrymwyd dau ddewis amgen cyffredinol:

i. Mae'r Dr Julian Lewis wedi awgrymu, yn hytrach na rhoi cyfeiriad cartref llawn ar y papur pleidleisio ac ar ddogfennau eraill sy'n agored i'w harchwilio, y gellid rhoi fersiwn fyrrach o gyfeiriad ar y dogfennau hynny. Awgrymir y gellid defnyddio rhan gyntaf cod post ymgeisydd, gan y gallai hynny fod yn ddigon i awgrymu a oes ganddo neu ganddi gysylltiad (neu beidio) â'r ardal dan sylw. I bob golwg, yr hyn a fwriedir yw mai dim ond ardal a rhanbarth y cod post - y "cod allanol" - a gyhoeddid, e.e. SO31, ond nid y "cod mewnol', sy'n diffinio cymdogaeth o fewn rhanbarth, ac sy'n dynodi grwpiau o gyfeiriadau o fewn cymdogaeth, e.e. 4NG[3]. Ystyriaeth bwysig yw nad yw ardaloedd a rhanbarthau codau post yn rhannu ffiniau etholaethau Seneddol, ac felly, ni fyddai'r wybodaeth hon ar ei phen ei hun o anghenraid yn cadarnhau a oedd ymgeisydd yn byw mewn etholaeth benodol neu beidio. Ni fyddai ond yn dangos a oeddent yn byw mewn ardal ddaearyddol benodol neu beidio. Hefyd, efallai na fyddai'r wybodaeth hon yn ddigon i alluogi pob etholwr i wybod ymhle mae cyfeiriad yr ymgeisydd, yn enwedig petai ardal y cod post mewn rhan arall o'r wlad nad oedd yr etholwyr yn gyfarwydd â hi. Fodd bynnag, gellir dadlau y byddai rhan gyntaf y cod post yn ddigon i rywun allu penderfynu a oes gan yr ymgeisydd gyfeiriad cartref yn yr etholaeth neu yn y cyffiniau. Dadl y rhai sy'n cynnig y newid hwn yw y byddai'n rhoi digon o wybodaeth i alluogi etholwyr i farnu ynglŷn â chysylltiad lleol ac y byddai ar yr un pryd yn caniatáu digon o warchodaeth i ymgeiswyr.

ii. dewis arall fyddai i'r ymgeiswyr ddatgelu eu cyfeiriad wrth Swyddog Canlyniadau'r etholaeth ac i'r Swyddog Canlyniadau ddatgan a yw'r cyfeiriad yn yr etholaeth dan sylw ai peidio. Gallai datganiad at y diben hwn ymddangos ar y papurau enwebu a'r papurau pleidleisio. Gellid gwneud hyn naill ai yn lle cyhoeddi rhan gyntaf cod post, neu yn ogystal â hynny.

---

[3] Ni fyddai cyhoeddi'r digidau allanol fel hyn yn ymarferol ar gyfer etholiadau lleol oherwydd nifer y wardiau gwahanol sydd o fewn pob awdurdod lleol.

Dan y ddau ddewis hyn, byddai'r Swyddog Canlyniadau'n dal i dderbyn bod y cyfeiriad a roddid gan yr ymgeisydd yn wir fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Dadleuon o blaid newid ac yn ei erbyn

Mae nifer o ddadleuon o blaid ac yn erbyn newid y gofynion presennol, naill ai drwy ddilyn un o'r dewisiadau uchod, neu drwy fynd ati mewn ffordd wahanol.

Dyma rai o'r dadleuon o blaid newid:

- mae'n bosibl y gallai ymgeiswyr, a'r rheini a etholir yn ASau, fod yn gyndyn o siarad yn rhydd ynglŷn â phynciau os ydynt yn teimlo y gallant fod yn destun aflonyddu neu ymyrryd neu waeth. Efallai hefyd y byddant yn ofni y gallai eu teuluoedd fod mewn perygl o du unigolion trwblus neu obsesiynol a allai ddod i chwilio amdanynt yn eu cartref. Deallwn fod enghreifftiau wedi bod o darfu ac aflonyddu ar ASau fel hyn. Er nad oes tystiolaeth bod unigolion yn gyndyn o sefyll etholiad oherwydd hyn, gellid dadlau y dylid gwneud pob ymdrech i osgoi'r risg honno;

- mae'n bwysig na ddylai natur y broses etholiadol ynddi'i hun yn atal amrywiaeth mor eang â phosibl o bobl rhag sefyll;

- ni ddylid ei gwneud yn haws i bobl drwblus a throseddwyr dargedu Aelodau Seneddol, a fydd, yn rhinwedd eu gwaith, yn denu beirniadaeth y cyhoedd o ambell du.

Dyma rai o'r dadleuon yn erbyn newid:

- ni fyddai'n cydweddu'n dda â chymeriad agored a thryloyw'r broses ddemocrataidd. Mae gan etholwyr ac ymgeiswyr a phartïon eraill sy'n sefyll etholiadau yr hawl i wybod am fywyd a chymeriad y sawl sy'n ceisio cefnogaeth yr etholwyr, ac, yn y cyd-destun hwn, mae cyfeiriad rhywun yn wybodaeth berthnasol i'w datgelu mewn etholiad;

- dylai'r rhai sy'n ceisio swydd gyhoeddus fod yn barod i wynebu craffu cyhoeddus. Mae datgelu'r manylion personol mwyaf sylfaenol amdanynt hwy eu hunain, megis eu cyfeiriad, dadleuir, yn rhan o hynny: mae sefyll etholiad yn weithred wirfoddol;

- gall unrhyw un sy'n benderfynol o ddod o hyd i gyfeiriad rhywun cyhoeddus megis AS neu ymgeisydd wneud hynny drwy ddulliau eraill. Gellid dadlau y byddai'n anodd i unrhyw un yn llygad y cyhoedd gadw'u cyfeiriad yn gyfrinach lwyr.

Ystyriaethau perthnasol eraill

Petai'r gyfraith yn cael ei newid fel na fyddai cyfeiriad llawn ymgeisydd yn cael ei gynnwys ar bapurau pleidleisio ac ar ddogfennau eraill etholiadau sy'n agored i'w harchwilio gan y cyhoedd, yna, byddai angen ystyried nifer o faterion cysylltiedig.

"Cadarnhau' cyfeiriadau

Fel y nodwyd uchod, nid oes yn rhaid i Swyddogion Canlyniadau gadarnhau ar hyn o bryd a yw'r cyfeiriad a roddir iddynt gan ymgeisydd yn gyfeiriad dilys, ond, petai'r cyfeiriad a roddid gan ymgeisydd yn annilys, gellid codi hynny ar ddeiseb etholiad yn erbyn ymgeisydd llwyddiannus, a gellid ystyried etholiad yn ddiffygiol petai'r enwebiad yn ddiffygiol. Awgrymwyd hefyd, petai'r gofyniad presennol ar gyfer cyhoeddi cyfeiriadau llawn ymgeiswyr yn cael ei ddileu drwy ddilyn un o'r dewisiadau amgen y cyfeirir atynt yn y papur ymgynghori hwn, y dylid cael gofyniad newydd, sef, bod swyddogion canlyniadau'n cymryd camau i "gadarnhau" y cyfeiriad er mwyn rhoi rhywfaint o sicrwydd bod y cyfeiriad a roddwyd gan yr ymgeisydd yn ddilys, oherwydd efallai na fyddai'n bosibl bellach i ymgeiswyr eraill nac i'r cyhoedd wneud hynny.

Byddai hyn yn golygu newid sylweddol iawn i'r sefyllfa bresennol lle mae gan Swyddogion Canlyniadau'r hawl i dderbyn bod manylion cyfeiriad ymgeiswyr yn iawn. Mae unrhyw ofyniad i'r Swyddog Canlyniadau gadarnhau cyfeiriadau cartref a roddir gan ymgeiswyr yn codi nifer o faterion y byddai angen eu hystyried yn ofalus:

- a ddylai Swyddog Canlyniadau orfod cadarnhau'n unig bod cyfeiriad yn bodoli, ynteu a ddylai orfod cadarnhau mai'r cyfeiriad hwnnw oedd gwir breswylfan yr ymgeisydd?

- petai angen i'r ymgeisydd ddangos ei fod yn preswylio mewn cyfeiriad a roddir, sut y dylid diffinio "preswylio"? Ar hyn o bryd, nid oes gofynion preswylio ar gyfer etholiadau Seneddol, a byddai gofyn i Swyddogion Canlyniadau gadarnhau'r manylion preswylio'n codi nifer o faterion. Er enghraifft, gallai sefyllfa ymgeiswyr y mae ganddynt ail gartref yn yr etholaeth fod yn bwnc llosg, ac felly hefyd gyfeiriadau busnes. A chofio bod enwebiadau'n cau 11 diwrnod gwaith cyn diwrnod yr etholiad mewn etholiad Seneddol, gallai fod yn drafferthus i ymgeiswyr ac i Swyddogion Canlyniadau, yn ystod cyfnod prysur yr etholiad, wirio cyfeiriadau ymgeiswyr ac ymdrin ag unrhyw anghydfod.

- Os oes gofyn i Swyddogion Canlyniadau gadarnhau cyfeiriadau, a ddylent hefyd allu gwrthod yr enwebiad os nad ydynt yn fodlon ar y dystiolaeth a gyflwynir? A ddylid cosbi ymgeiswyr sy'n rhoi cyfeiriad ffug?

- Pa dystiolaeth ddogfennol a fyddai'n ddigon i brofi eu preswyliaeth? Un ffordd o fynd ati fyddai rhestru yn y ddeddfwriaeth y dogfennau a fyddai'n dderbyniol. Byddai angen ystyried a fyddai unrhyw newid yn creu rhwystrau anfwriadol i bobl sy'n dymuno sefyll ond nad oes ganddynt o

anghenraid y dogfennau wrth law sy'n cadarnhau eu cyfeiriad, e.e. pobl ifanc.

- Efallai y byddai problemau ymarferol yn codi ar gyfer ymgeiswyr, a chofio y gall asiant ymgeisydd gyflwyno papurau enwebu i'r Swyddog Canlyniadau ar eu rhan. Byddai angen i ymgeiswyr sicrhau bod prawf o'u cyfeiriad wedi'i gynnwys gyda'r papurau enwebu a'i fod yn cyrraedd y Swyddog Canlyniadau'n ddiogel.

- Byddai angen newid y broses enwebu, yn enwedig y ffurf ar y papurau enwebu a gyflwynid gan ymgeiswyr.

Cyhoeddi cyfeiriadau cartref yn wirfoddol

Petai'r gyfraith yn cael ei newid er mwyn i ymgeiswyr allu peidio â datgelu eu cyfeiriad cartref llawn, byddai angen i'r Llywodraeth ystyried a fyddai ymgeiswyr yn dal i gael dewis cyhoeddi eu cyfeiriad cartref llawn, os oeddent yn dymuno gwneud hynny. Byddai hyn yn golygu y gallai ymgeiswyr nad ydynt yn gwrthwynebu cyhoeddi eu cyfeiriad cartref llawn ei gyhoeddi yn yr etholiad. Gallai hyn arwain at ddryswch i'r etholwyr oherwydd byddai cyfeiriad llawn rhai ymgeiswyr yn cael ei argraffu dan eu henw ar y papur pleidleisio, ond ar gyfer rhai eraill, dim ond rhan gyntaf cod post eu cyfeiriad a fyddai'n ymddangos. Gallai hefyd wneud y broses enwebu'n fwy cymhleth i weinyddwyr etholiadau oherwydd na fyddai pob ymgeisydd yn gorfod dilyn yr un gofynion a'r un gweithdrefnau. Yn ogystal â hyn, efallai y byddai ymgeiswyr nad oeddent am ddatgelu eu cyfeiriad cartref llawn, ac y gallai fod ganddynt reswm da iawn dros beidio â gwneud hyn, yn teimlo eu bod dan anfantais o'u cymharu â'r ymgeiswyr hynny sydd wedi datgelu eu cyfeiriad cartref llawn.

Cyfeiriadau llawn ymgeiswyr ar gael i bobl benodol yn unig

Pe na fyddai cyfeiriad cartref llawn ymgeisydd yn cael ei ddarparu ar gyfer y cyhoedd, byddai angen ystyried a ddylai rhai categorïau penodol o bobl gael yr hawl i weld y wybodaeth hon. Gellid dadlau bod ymgeiswyr eraill sy'n sefyll yr etholiad a'u hasiantau'n perthyn i gategori arbennig ac y dylent gael gweld cyfeiriad cartref llawn yr ymgeisydd er mwyn bod yn agored ac yn dryloyw. Yn yr un modd, gellid dadlau y dylai arsylwyr etholiadau allu gweld cyfeiriadau cartref llawn ymgeiswyr. Serch hynny, ac ystyried y pryderon sydd wedi'u codi ynglŷn â'r risg y mae datgelu cyfeiriadau'n ei pheri i ddiogelwch ymgeiswyr, gellid dadlau mai dim ond wrth y Swyddog Canlyniadau y dylid datgelu'r wybodaeth.

Casgliad

Mae'r Llywodraeth yn awyddus i glywed eich barn ynglŷn â'r materion a godir yn y papur hwn. Ar ddiwedd y ddogfen hon, ceir holiadur sy'n gofyn nifer o gwestiynau penodol a byddem yn falch o gael eich barn ynglŷn â'r rhain. Serch hynny, byddai'r Llywodraeth hefyd yn croesawu clywed eich barn am unrhyw fater sy'n ymwneud â darparu manylion cyfeiriadau ymgeiswyr ar gyfer y cyhoedd, hyd yn oed os nad yw'r holiadur yn sôn yn benodol amdanynt.

Holiadur

Papur Ymgynghori Cyhoeddi Cyfeiriadau Ymgeiswyr [CP (L) 30/08]

Rhestr o gwestiynau ar gyfer ymateb

Byddem yn croesawu'ch ymateb i'r cwestiynau a ganlyn a ofynnir yn y papur ymgynghori hwn. A fyddech cystal â llenwi'r ffurflen a'i dychwelyd dros yr e-bost i: candidatesaddresses@justice.gsi.gov.uk neu ei ffacsio i: **0870 739 5841**. Diolch!

Y Cynigion

Cwestiwn 1
A ddylid newid y gyfraith fel nad yw cyfeiriadau llawn ymgeiswyr sy'n sefyll etholiadau Seneddol y DU yn cael eu cynnwys ar bapurau pleidleisio nac ar ddogfennau etholiadol eraill sydd ar agor i'r cyhoedd adeg etholiad? Rhowch y rhesymau dros eich ateb.

Cwestiwn 2
Os nad yw cyfeiriad cartref llawn ymgeisydd ar agor i'r cyhoedd, a ddylid cynnwys rhan gyntaf (neu god "allanol") cod post cyfeiriad yr ymgeisydd ar y papurau pleidleisio ac ar ddogfennau etholiadol eraill yn lle hynny? A fyddai hyn yn ddigon? **Oni ddylid gwneud hynny, a ydych yn ffafrio'r dewis arall, sef datganiad ynglŷn ag a yw cyfeiriad yr ymgeisydd o fewn yr etholaeth? Ynteu a ydych yn ffafrio dull arall?** Rhowch y rhesymau dros eich ateb.

Cadarnhau

Cwestiwn 3
Oni chaiff cyfeiriad cartref llawn ymgeisydd ei gynnwys ar y papurau pleidleisio ac ar ddogfennau etholiadol eraill, a ddylai fod gofyn i Swyddogion Canlyniadau gadarnhau bod cyfeiriad a roddir ar bapur enwebu'n "ddilys", ynteu a ddylent ddal i dderbyn bod y wybodaeth a roddir am y cyfeiriad cartref yn iawn? Rhowch y rhesymau dros eich ateb.

Cwestiwn 4
A dilyn trywydd eich ateb i gwestiwn 3, os ydych yn meddwl y dylai Swyddogion Canlyniadau orfod "cadarnhau" manylion cyfeiriad, oni fyddai'r cyfeiriad llawn yn cael ei gyhoeddi rhagor, a ddylai Swyddog Canlyniadau (a) gadarnhau'n syml bod cyfeiriad yn bodoli ynteu (b) gadarnhau mai'r cyfeiriad hwnnw yw gwir breswylfan ymgeisydd? **Os credwch y dylai Swyddog Canlyniadau gadarnhau bod preswylfan ymgeisydd yn ddilys, sut y dylid diffinio "preswylfan"? Pa dystiolaeth ddogfennol a fyddai'n ddigon i brofi bod y cyfeiriad yn breswylfan iddynt?**

Cwestiwn 5
Petai gofyn i Swyddogion Canlyniadau gadarnhau bod ymgeisydd yn preswylio mewn cyfeiriad, a ddylent hefyd allu gwrthod yr enwebiad os nad ydynt yn fodlon ar y dystiolaeth a gyflwynir? Rhowch y rhesymau dros eich ateb.

Cwestiwn 6
Gofynnir i weinyddwyr etholiadau roi eu sylwadau ynglŷn â'r goblygiadau ymarferol, gan gynnwys goblygiadau ar gyfer adnoddau, petai gofyn iddynt gadarnhau cyfeiriadau cartref ymgeiswyr mewn etholiadau Seneddol yn y DU. Pa faterion fyddai'n codi?

Cyhoeddi cyfeiriadau cartref yn wirfoddol

Cwestiwn 7
Petai'r gyfraith yn cael ei newid er mwyn sicrhau nad oedd yn rhaid darparu cyfeiriad cartref llawn ymgeisydd ar bapurau pleidleisio nac ar ddogfennau etholiadol eraill, a ddylai ymgeiswyr gael dewis dal i gyhoeddi eu cyfeiriad cartref llawn os mai dyna yw eu dymuniad? Rhowch y rhesymau dros eich ateb.

Mynediad cyfyngedig at gyfeiriadau llawn ymgeiswyr

Cwestiwn 8
Oni chynhwysir cyfeiriad llawn ymgeisydd ar bapurau pleidleisio ac ar ddogfennau etholiadol eraill, a ddylai pobl benodedig eraill, megis ymgeiswyr a'u hasiantau, ac arsylwyr etholiadau, gael gweld cyfeiriad cartref llawn yr ymgeisydd, ynteu ai dim ond wrth y Swyddog Canlyniadau y dylid datgelu'r wybodaeth hon? Rhowch y rhesymau dros eich ateb.

Diolch am gyfrannu at yr ymarfer ymgynghori hwn.

Eich Manylion Chi

A fyddech gystal â defnyddio'r adran hon i ddweud wrthym amdanoch chi'ch hun

Enw llawn	
Teitl swydd neu ym mha rinwedd yr ydych yn ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd ac ati)	
Dyddiad	
Enw cwmni/sefydliad (os yw hynny'n berthnasol):	
Cyfeiriad	
Cod post	
Os hoffech inni gydnabod inni dderbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn	☐ (ticiwch y blwch)
Y cyfeiriad lle dylid anfon y gydnabyddiaeth os yw'n wahanol i'r uchod.	

Os ydych yn cynrychioli grŵp, rhowch enw'r grŵp gan ddweud yn fras pwy yw'r bobl neu'r sefydliadau rydych yn eu cynrychioli.

Manylion cysylltu/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 28 Ionawr i:

Paul Brunton
Y Weinyddiaeth Cyfiawnder
Adran Etholiadau a Democratiaeth
7.35
102 Petty France
Llundain
SW1H 9AJ

Ffôn: 020 3334 3778
Ffacs: 0870 739 5841
E-bost: paul.brunton@justice.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Gallwch gael rhagor o gopïau papur o'r ymgynghoriad o'r cyfeiriad hwn ac mae ar gael hefyd ar-lein yn http://www.justice.gov.uk/index.htm.

Mae fersiynau o'r cyhoeddiad hwn ar gael ar fformatau eraill drwy wneud cais i Fred Davis@justice.gsi.gov.uk / 020 3334 3791 yn Adran Etholiadau a Democratiaeth.

Cyhoeddi'r ymateb

Cyhoeddir papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ymhen [ ] mis. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn http://www.justice.gov.uk/index.htm.

Grwpiau cynrychioladol

Gofynnir i grwpiau cynrychioladol roi crynodeb bras o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli wrth iddynt ymateb.

Cyfrinachedd

Mae'n bosibl y cyhoeddir gwybodaeth a roddir wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, a'i datgelu'n unol â'r trefniadau mynediad at wybodaeth. (Yn bennaf, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yw'r rhain).

Os ydych am inni gadw'r wybodaeth a rowch yn gyfrinachol, dylech gofio, dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, bod Cod Ymarfer statudol ar waith a'i bod yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef. Mae'n ymdrin, ymhlith pethau eraill, â dyletswyddau ym maes cyfrinachedd. Yn y cyswllt hwn,

byddai'n gymorth petaech yn gallu esbonio inni pam yr ydych yn meddwl bod y wybodaeth a roesoch yn gyfrinachol. Os cawn gais am ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn eich sicrhau y gellir cadw cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried yn ddatganiad sy'n clymu'r Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu'ch data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a, gan amlaf, bydd hyn yn golygu na chaiff eich data personol ei ddatgelu i drydydd parti.

Asesu Effaith

Meini prawf ar gyfer ymgynghori

Dyma'r saith meini prawf ar gyfer ymgynghori:

1. **Pa bryd y dylid ymgynghori** – Dylid ymgynghori'n ffurfiol pan fydd cyfle i ddylanwadu ar ganlyniad y polisi.

2. **Hyd yr ymarferion ymgynghori** – Fel rheol, dylai ymgynghoriadau barhau am 12 wythnos o leiaf a gellid ystyried amserlen hwy os yw hynny'n ymarferol ac yn synhwyrlon.

3. **Eglurder ynglŷn â'r cwmpas a'r effaith** - Dylai dogfennau ymgynghori fod yn glir ynglŷn â'r broses ymgynghori a'r hyn a gynigir, ynglŷn â'r gallu i ddylanwadu ac ynglŷn â chostau a buddiannau disgwyliedig y cynigion.

4. **Hwylustod yr ymarferion ymgynghori** – Dylid cynllunio ymarferion ymgynghori er mwyn iddynt fod yn hwylus i'r bobl y bwriedir eu cyrraedd, a dylid eu targedu'n glir at y bobl hyn.

5. **Baich ymgynghori** - Mae'n hanfodol cadw'r baich mor ysgafn ag y bo modd er mwyn i'r ymgynghoriadau fod yn effeithiol ac er mwyn sicrhau bod y rhai yr ymgynghorir â hwy'n ymroi i'r broses.

6. **Ymatebolrwydd ymarferion ymgynghori** – Dylid dadansoddi ymatebion i ymgynghoriad yn ofalus gan roi adborth clir i'r rhai sydd wedi cymryd rhan ar ôl yr ymgynghori.

7. **Dulliau ymgynghori** – dylai swyddogion sy'n cynnal ymgynghoriad geisio arweiniad ynglŷn â sut i ymgynghori'n effeithiol a rhannu'r hyn y maent wedi'i ddysgu yn sgil y profiad.

Rhaid atgynhyrchu'r meini prawf hyn ym mhob dogfen ymgynghori.

Manylion cysylltu Cydlynydd yr Ymgynghoriad

Os oes gennych unrhyw gwŷn neu sylw am y **broses** ymgynghori, yn hytrach nag am y pwnc y mae'r papur hwn yn ymdrin ag ef, dylech gysylltu â Gabrielle Kann, Cydlynydd Ymgynghori'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, ar 020 7210 1326 (neu o **12 Rhagfyr 2008** ymlaen ar 020 3334 4496), neu anfonwch e-bost i consultation@justice.gsi.gov.uk

Neu, cewch ysgrifennu i'r cyfeiriad isod:

Gabrielle Kann
Cydlynydd yr Ymgynghoriad
Y Weinyddiaeth Cyfiawnder
5ed Llawr Selborne House
54-60 Victoria Street
Llundain SW1E 6QW

Ar **12 Rhagfyr 2008,** bydd y cyfeiriad yn newid i:

Gabrielle Kann
Cydlynydd yr Ymgynghoriad
Y Weinyddiaeth Cyfiawnder
7ed Llawr
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ

Os yw eich cwynion neu'ch sylwadau'n ymwneud â'r pwnc y mae'r papur hwn yn ymwneud ag ef yn hytrach nag â'r broses ymgynghori, a fyddech cystal â'u cyfeirio at y person cyswllt a roddir yn adran **Sut i ymateb** y papur hwn ar dudalen 26.

[leave blank – inside back cover]

© Hawlfraint y Goron
Cynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Mae fersiynau o'r adroddiad hon ar gael ar fformatau eraill drwy wneud cais i'r Adran Etholiadau a Democratiaeth drwy ffonio 020 3334 3791 a neu anfon e-bost at fred.davis@justice.gsi.gov.uk .